**<u>Cofnodion cyfarfod rhif 47 y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd</u>**
Ystafell Bwyllgora 5, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA
Dydd Mawrth 23ain Ionawr 2018
6.30pm

**Aelodau Cynulliad yn bresennol:**

Nick Ramsay AC (Ceidwadwyr Cymreig, Mynwy) - Cadeirydd

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Andrew Stumpf | Glandŵr Cymru – Ysgrifenyddiaeth |
| Emily Lewis | Glandŵr Cymru – Ysgrifenyddiaeth |
| Nick Worthington: | Glandŵr Cymru |
| David Morgan | Glandŵr Cymru |
| Ruth Taylor-Davies | Letha Consultancy a Y Cymoedd a Newidiodd y Byd |
| Dave Penberthy | Cadw |
| John Rodger | Llwybr Ewropeaidd Treftadaeth Ddiwydiannol |
| Laura Lewis | Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu |
| Richard Dearing | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Richard Essex | CREW |
| Stephen Lawrence | Mott MacDonald |
| Eamon Scullion | Amgueddfa Glowyr De Cymru |
| Patrick Moss | Moss Naylor Young |
| Richard Dommett | MBACT |
| Julie Roberts Joyce | Canal & River Trust - Partneriaeth SWS |
| Julian Stedman | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Andrew Marvell | Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent |
| Carys Howell | Bwrdd Glandŵr Cymru |
| Nigel Annett | Bwrdd Glandŵr Cymru |
| Y Cyngh. David Roman | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Simon Bradwick | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Paul Barrett | The Living Taff |
| Gwyn Lewis | Cerddwyr Morgannwg |
| Martin Buckle | Cymdeithas Parc Bannau Brycheiniog, |
| Hannah Cubie | ABC Leisure Group - Goetre Wharf |

*****

Dechreuodd y cyfarfod am 6.30pm

**Eitem 1: Y Llwybr Ewropeaidd Treftadaeth Ddiwydiannol a rôl treftadaeth ddiwydiannol mewn twristiaeth ddiwylliannol ac adfywio cymunedol - John Rodger MBE, aelod o'r Bwrdd, y Llwybr Ewropeaidd Treftadaeth Ddiwydiannol**

Croesawodd Nick Ramsay AC bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd John Rodger MBE.

Dechreuodd John ei gyflwyniad ar y Llwybr Ewropeaidd Treftadaeth Ddiwydiannol (ERIH) - "Y rhwydwaith mwyaf cynhwysfawr ar gyfer twristiaeth treftadaeth ddiwydiannol yn Ewrop "- trwy sôn am yr ysbrydoliaeth ar gyfer y llwybr.

Amlinellodd John dreftadaeth ddiwydiannol gyffredin Ewrop, o Fanceinion, y ddinas ddiwydiannol gyntaf, i Lodz, Gwlad Pwyl, y cynnydd mewn cytrefi a lledaeniad y Chwyldro Diwydiannol dros y 200 mlynedd diwethaf, yna soniodd am rai ffigurau allweddol o'r Chwyldro Diwydiannol oedd â chysylltiadau â Chymru. Roedd y rhain yn cynnwys John Hughes, diwydiannwr o Gymru a sefydlodd weithfeydd haearn a phyllau glo yn 1870 yn Hughesovka, yn yr hyn sydd bellach yn Wcráin; Georges Dufaud, a dreuliodd lawer o amser yng ngwaith haearn Cyfarthfa cyn sefydlu gwaith haearn Fourchambault yn Ffrainc; a Sidney Gilchrist Thomas o Flaenafon, a ddarganfu ffordd newydd o wneud haearn.

Mae'r adeiladau sy'n parhau o'r amser hwn yn gofebau i wyddoniaeth ac arloesedd. Mae safleoedd treftadaeth ddiwydiannol o gwmpas Ewrop wedi'u trawsnewid yn lleoliadau celfyddydol a pherfformio, er enghraifft, gosodiadau goleuadau ac arddangosfeydd celf yng Ngwaith Haearn Volklingen, yr Almaen.

Yng Nghymru, efallai fod yr henebion diwydiannol hyn yn gymharol fach eu maint ond maent wedi'u gosod mewn tirweddiau gwych. Ers y Chwyldro Diwydiannol, rydym wedi gweld 'gwyrddu' ar Gymoedd De Cymru. Mae dod â'r dirwedd i mewn i'r stori a'i chysylltu â'r strwythurau hyn yn rhan o'r ysbrydoliaeth ar gyfer ERIH.

Er enghraifft, cadw gwaith haearn fel 'eglwys gadeiriol' i ddiwydiant yn rhanbarth y Ruhr, yr Arddangosfa Adeiladu Ryngwladol a Pharc Tirwedd Emscher ac Afon Emscher - un o'r ardaloedd mwyaf llygredig yn y byd ar un adeg. Mae'r Gasometer Oberhausen yn hen danc nwy sydd bellach yn neuadd arddangos, ac ar hyn o bryd mae glôb sy'n troelli ynddi.

Gwyliau wedi'u trefnu o gwmpas y tirnodau diwydiannol hyn hefyd, megis yr ExtraSchicht - noson o ddiwylliant diwydiannol drwy Fetropolis Ruhr, ac Industriada, dathliad o hanes rhanbarth glo Gwlad Pwyl. Mae twristiaeth treftadaeth ddiwydiannol bellach yn elfen fawr o dwristiaeth ddiwylliannol - nid marchnad arbenigol mohoni bellach. Gall fod yn gatalydd ar gyfer adfywio.

Soniodd John wedyn am strwythur yr ERIH, sydd bellach yn cynnwys dros 1,400 o safleoedd dros 45 o wledydd. Y prif gydrannau yw

- Pwyntiau Angor - 105 o'r atyniadau treftadaeth ddiwydiannol mwyaf arwyddocaol yn hanesyddol
- Safleoedd unigol eraill, sydd â llai o bwyslais ar brofiad ymwelwyr
- Llwybrau Rhanbarthol - 14 llwybr rhanbarthol yn cynnwys Pwyntiau Angor a safleoedd eraill sydd gyda'i gilydd yn dweud hanes diwydiannol ardal
- Llwybrau Thema Ewropeaidd - llwybrau rhithwir sy'n adrodd hanes treftadaeth ddiwydiannol Ewropeaidd drwy 13 thema wahanol, megis 'Tai a Phensaernïaeth', 'Diwydiant a Rhyfel', a 'Phapur'.

Siaradodd John am y llwybr yn yr Iseldiroedd fel enghraifft o lwybr rhanbarthol, sydd wedi'i gynllunio i wneud y gorau o dwristiaeth yn ardal Amsterdam, drwy gerdded, beicio, gyrru neu deithio mewn cwch. Mae'r llwybr yn cynnwys darparwyr lleol drwy ddarparu gwybodaeth am lety a lleoedd bwyta, yn ogystal â'r safleoedd treftadaeth. Llwybrau rhanbarthol:

- annog safleoedd mawr a bach i weithio gyda'i gilydd: *partneriaid nad cystadleuwyr*
- gall gynnwys atyniadau, llety, bwytai, gweithredwyr trafnidiaeth ac ati: *profiad cyflawn ymwelwyr*
- llawer o safleoedd, un stori: *edrychwch am y cysylltiadau*

- apelio at yr ymwelydd cyffredinol: *nid dim ond ar gyfer yr arbenigwyr*
- gall ysgogi adfywio cymunedol ac economaidd: *a chynyddu balchder cymunedol / dinesig*
- proffil Ewropeaidd: *brand ERIH yn dod yn fwy adnabyddus*

Er enghraifft, mae llwybr rhanbarthol De Cymru, sy'n uchel ei barch, yn cynnwys Big Pit ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe fel Pwyntiau Angor; wyth Atyniad Allweddol arall; a thros 70 o lefydd eraill o ddiddordeb. Mae llawer o randdeiliaid yn cyfrannu i'r llwybr, yn cynnwys grwpiau cymunedol, Croeso Cymru ac awdurdodau lleol - nid yn cystadlu ond yn edrych ar y darlun mwy.

Hyrwyddo'r ERIH - Cynhyrchir taflenni mewn tair iaith. Y wefan yw'r dull hyrwyddo mwyaf effeithiol, gyda thros 3,000 o drawiadau'r dydd. Mae'r wefan yn cynnwys hanes y Chwyldro Diwydiannol, yn ogystal â thua 300 o fywgraffiadau yn cwmpasu ystod eang o bobl a ddylanwadodd ar hanes diwydiannol Ewrop. Defnyddir cyfryngau cymdeithasol hefyd.

Mae'r ERIH yn gwneud llawer o weithgareddau i roi cyhoeddusrwydd i'r llwybrau, yn cynnwys rhoi cyflwyniad i'r UE ym Mrwsel y llynedd. 2018 yw Blwyddyn Treftadaeth Ddiwylliannol Ewrop.

Mae prosiectau eraill ar y gweill yn cynnwys gefeillio safleoedd, datblygu rhwydwaith o dai diwydiannol, a hwyluso cyfnewidfeydd rhwng ysgolion. Maent hefyd yn ceisio cysylltu llwybrau beicio mewn gwahanol wledydd â'i gilydd a chyda threftadaeth ddiwydiannol.

Nodau'r ERIH

- cynyddu **gwerthfawrogiad** o dreftadaeth ddiwydiannol
- cynyddu'r **niferoedd ymwelwyr** a gweithgarwch economaidd
- meithrin **balchder cymunedol** mewn treftadaeth ddiwydiannol
- annog safleoedd i **gydweithio a rhwydweithio**
- cryfhau **twristiaeth treftadaeth ddiwydiannol**
- creu **adnodd digidol** cynhwysfawr
- sefydlu'r ERIH fel **brand ansawdd** Ewropeaidd

Daeth John â'r cyflwyniad i ben gyda detholiad o ffotograffau gan bwysleisio bod lle i'r gorffennol yn y presennol a'r dyfodol.

Mae'r cyflwyniad ar gael; cysylltwch ag Emily.lewis@canalrivertrust.org.uk

**Trafodaeth**

**C:** Pryd y sefydlwyd y llwybr?

**A:** Amser maith yn ôl ond mae'n cael ei ddiweddaru'n barhaus - diweddarwyd y wefan y llynedd gydag uwchraddiad gwych.

**C:** Pa mor bwysig yw'r UE i'r prosiect hwn?

**A:** Goroesodd y llwybr am wyth mlynedd heb gyllid, ond ni fyddai yma heb yr Undeb. Mae'n anarferol ei fod yn dal i redeg ar ôl rhaglen Interreg. Bydd y llwybr yn parhau, drwy aelodaeth a gwaith caled.

**C:** Beth yw rôl camlesi yn y llwybrau hyn?

**A:** Fel coridorau cludiant gwerthfawr, maent wedi bod wrth wraidd cynnydd diwydiannol a rhwydweithiau. Y dyddiau hyn, mae gwirfoddolwyr ar gamlesi yn helpu i gadw ein treftadaeth yn fyw.

**Eitem 2: Y Cymoedd a Newidiodd y Byd: Dehongli gorffennol diwydiannol De Cymru - Ruth Taylor-Davies, Letha Consultancy**

Dechreuodd Ruth drwy adleisio'r hyn a ddywedodd John sef, er nad oes gan Gymru'r safleoedd treftadaeth ddiwydiannol mwyaf, mae ganddi rai o'r hynaf a'r mwyaf dylanwadol yn y byd.

Y Cymoedd a Newidiodd y Byd (TVTCTW) dehongliad eang o'r Cymoedd, yn mynd i lawr at y môr, ac yn cynnwys tramffyrdd, rheilffyrdd a chamlesi - unrhyw beth a chwaraeodd ran yng ngorffennol diwydiannol De Cymru.

Ar hyn o bryd mae TVTCTW yn cysylltu rhwydwaith o 79 o bartneriaid. Mae'r safleoedd yn bartneriaid, nid cystadleuwyr, ac mae'r rhwydwaith wedi'i seilio ar y ddealltwriaeth bod cryfder yn deillio o'r ' màs critigol' hwn – gwnaiff pobl deithio ymhellach ar gyfer grŵp mwy o atyniadau. Mae'r rhwydwaith hefyd yn cynnwys fforymau treftadaeth a hanes lleol, sy'n casglu'r hanes cymdeithasol sy'n rhoi bywyd i'r safleoedd.

Mae TVTCTW yn gwneud rhywfaint o farchnata, ac mae ganddo bresenoldeb ar Facebook a Twitter. Mae partneriaid yn darparu amser a chefnogaeth, ac yn rhannu ystafelloedd cyfarfod ac ati.

Siaradodd Ruth am brosiectau penodol, yn cynnwys y rôl a chwaraeodd TVTCTW wrth dynnu ynghyd weithgor a fu â rôl allweddol yn dod â'r Man Engine i Dde Cymru - prosiect arloesol a chyffrous.

Mae'r rhwydwaith bron fel rhyw 'asiantaeth baru' ym maes treftadaeth, yn helpu partneriaid i gysylltu â'i gilydd a chyda sefydliadau eraill. Mae eu gwaith diweddar yn trefnu bod grŵp Treftadaeth Abertridwr yn gweithredu mewn partneriaeth â'r Comisiwn Brenhinol ar lwybr digidol wedi bod yn enghraifft dda, ac mae Sefydliad y Peirianwyr Sifil hefyd wedi cysylltu â nhw yn ddiweddar i gyfrannu at eu dathliadau deucanmlwyddiant.

Mae'r bartneriaeth yn gweld dyfodol hir ac mae cyfarfodydd wedi eu trefnu hyd at o leiaf 2020, ac nid oes prinder lleoliadau gwirfoddol. Ar hyn o bryd mae'r prosiect heb gyllid ond maen nhw'n edrych ar y cam nesaf. Mae'n manteisio ar y blynyddoedd o brofiad sydd gan Croeso Cymru a llwybrau eraill fel Ffordd Cymru. Er enghraifft, yn y gorffennol datblygwyd llwybrau megis 'Leginds' sy'n gysylltiedig â ffigurau chwedlonol o ddiwydiant, ar gyfer 'Blwyddyn Chwedlau 2017, ac edrychwyd ar yr arloeswyr a ddaeth i'r Cymoedd yn ystod y Chwyldro Diwydiannol ar gyfer 'Blwyddyn Antur' 2016.

Mae'r heriau i'r llwybr yn cynnwys yr angen am 'rymoedd gyrru' ymroddedig; cynnal momentwm i'r partneriaid; parhau i ddatblygu adnoddau newydd; gweddu i'r tueddiadau ariannu ar y pryd; a rhoi'r syniad ar waith mewn rannau eraill o Gymru hefyd.

Mae gan y llwybr bresenoldeb ar-lein ar wefan Safle Treftadaeth Byd Diwydiannol Blaenafon. Mae hyn yn cynnwys map rhyngweithiol y gellir ei chwilio drwy thema neu leoliad. Maent hefyd wedi cynhyrchu oriel ddelweddau am ddim a phecyn cymorth marchnata i gynorthwyo partneriaid gyda'u hysbysebu.

Mae'r cyflwyniad ar gael; cysylltwch ag emily.lewis@canalrivertrust.org.uk

**Trafodaeth**

Dywedodd Ruth nad yw hi'n gweithio'n uniongyrchol i'r rhwydwaith, sy'n fwy o bartneriaeth anffurfiol (CBS Torfaen sydd wedi bod yn arwain o ran sicrhau cyllid ar sail prosiectau), a phwysleisiodd yr angen am bobl ymroddedig i gadw'r momentwm i fynd rhwng gwahanol gyfnodau ariannu.

Wrth drafod faint o wirfoddolwyr oedd yn ymwneud â hyn, dywedodd Eamon Scullion o Amgueddfa Glowyr De Cymru, partner i VTCTW sy'n canolbwyntio ar brofiadau cyn-lowyr, fod ganddynt tua 45 y mis.

**Eitem 3: "Gyda'n gilydd, rydym ni'n hardd!": Ymdrin â chynllunio deongliadol drwy ddull cenedlaethol - David Penberthy, Pennaeth Dehongli, Cadw**

Dechreuodd y siaradwr olaf, Dave Penberthy, gyda chân, cyn cyflwyno rhywfaint o gefndir i Gynllun Dehongli Cymru Gyfan.

Yn 2008 dechreuodd Cadw asesu'r ffordd yr oedd yn cyfleu straeon Cymru, ac o wneud hynny, roedd yr angen i gydweithio i ddweud y straeon hyn yn glir iawn. Mae twristiaeth yn cyfrannu £8.7 biliwn i Economi Cymru (Deloitte 2013), ac mae twristiaeth dreftadol yn unig ar draws y DU yn cyfrannu £1 biliwn i economi'r DU (CDL 2016). Mae'r budd economaidd yn sbardun go iawn i'r llywodraeth i gefnogi ac annog meddwl cydgysylltiedig yn y maes hwn.

Mae treftadaeth yn rhoi mantais gystadleuol allweddol yn rhyngwladol i dwristiaeth yng Nghymru. Mae gennym fwy o gestyll fesul milltir sgwâr nag unrhyw le arall yn y byd.

Fel cenedl artistig a chreadigol mae'n bwysig meithrin ffordd greadigol o ddweud ein hanesion. Rhoddodd Dave enghreifftiau o sut mae gwaith artistiaid, taflunio digidol a cherflunwaith wedi cael eu defnyddio i ddehongli hanes Cymru, gan nodi bod bodloni disgwyliadau cynyddol soffistigedig ymwelwyr yn un o'r heriau sy'n wynebu dehongli treftadol.

Mewn marchnad gynyddol gystadleuol mae angen cyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Er enghraifft, roedd Llwybr Tylwyth Teg Castell Coch yn hynod boblogaidd yn ddiweddar ac yn dod â phobl i mewn i'r castell na fyddai wedi mynd yno fel arall.

Mae ail-gysylltu treftadaeth â chymunedau yn her arall, fel y dangosir gan y dyfyniad hwn gan Huw Lewis, a fu gynt yn Weinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth:

> "... mae angen i ddehongli allu edrych allan i'r dirwedd, gwneud cysylltiadau â mannau eraill o gyfnod neu swyddogaeth debyg, a gallu dweud y stori ar draws yr henebion hyn ..."

Ni ddigwyddodd treftadaeth ar ei phen ei hun ac mae'n bwysig helpu pobl i ddeall y cysylltiadau rhwng gwahanol safleoedd, er enghraifft, cysylltiad camlesi a mwyngloddio.

Soniodd Dave am brofiad yn gynharach yn ei yrfa lle nad oedd yr ymdrechion dehongli ar hyd Cangen Crymlyn ond yn para cyn belled â ffin yr awdurdod lleol. Mae hyn yn amlygu'r

ffaith nad yw'r daith yn gorffen i'r ymwelydd lle mae'r cyfrifoldeb yn gorffen, a bod angen ystyried parhad a'r stori ehangach.

Mae Cynllun Dehongli Cymru Gyfan yn ddull cenedlaethol unigryw sy'n torri tir newydd - mae'r syniadau eisoes wedi'u cymryd i Sweden a Ffrainc.

Mae'r stori yn allweddol ar gyfer y cynlluniau dehongli hyn, sydd:

1) yn canolbwyntio ar stori
2) yn canolbwyntio ar yr ymwelwyr
3) yn argymell y lleoedd gorau i ddweud y stori
4) yn argymell ffyrdd o greu cysylltiadau rhwng straeon a lleoedd
5) yn thematig

Nid chyfyngir arnynt gan ffiniau na pherchnogaeth, ac nid ydynt yn rhagnodol.

Mae yna wyth maes thematig, rhai yn cynnwys nifer o linynnau storïol. Mae canllawiau ar gyfer yr ardaloedd daearyddol lle mae pob cynllun yn fwyaf perthnasol, gyda llawer o ardaloedd yn dod i mewn i ddau gynllun o leiaf.

Mae'r straeon hyn yn cael eu hysbysebu mewn sawl ffordd, gan gynnwys gweithio gyda blogwyr, creu traciau sain perthnasol i'r safleoedd, yn ogystal â strategaethau marchnata mwy traddodiadol.

Gorffennodd Dave drwy bwysleisio bod gweithio gyda'n gilydd yn gwneud mwy i dynnu pobl i ddod i Gymru a mwynhau'r hanes.

Mae'r cyflwyniad ar gael; cysylltwch ag emily.lewis@canalrivertrust.org.uk

**Trafodaeth**

Nododd Carys Howell nad yw'r gair 'treftadaeth' efallai yn taro tant i bobl, ond y byddent efallai'n dweud 'mae'r lle hwn yn rhan o'm hanes i'. Dywedodd Ruth Taylor-Davies mai gwneud hanes yn hygyrch oedd y rheswm am enw beiddgar eu llwybr nhw.

Nododd John Rodger ei bod yn gallu cymryd amser i gymunedau ymfalchïo yn eu hanes – cafodd hanes diwydiannol Cymru ei adael ar ôl am dipyn.

Mae neuadd y dref ym Merthyr wedi ei hadnewyddu ac mae bellach yn ofod byw - mae'n bwysig defnyddio'r strwythurau hyn ar gyfer y presennol a'r dyfodol.

Soniodd Dave Penberthy am yr angen i ddarparwyr trafnidiaeth a safleoedd feddwl ar y cyd - mae'r trên yn cysylltu treftadaeth.

Mae lles yn flaenoriaeth uchel yng Nghymru ac mae'n bwysig edrych ar fanteision cyfannol safleoedd.

**Eitem 4: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Andrew Stumpf**

Rhoddodd Andrew Stumpf y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am ddigwyddiadau o ddiddordeb sydd ar y gorwel:

| | |
|---|---|
| **1af Mai 2018** | **Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd** thema i'w chadarnhau, 6.30pm<br>Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd |

**Eitem 5: Unrhyw fater arall**

Ni chofnodwyd unrhyw faterion eraill.